**Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd**

**Adrannau 30 a 31**
**DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2004,**
**RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) 2014 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**
**Archwilio Cyfrifon am y Flwyddyn Ariannol 2025/26**
**RHYBUDD AM HAWLIAU CYHOEDDUS**

1. Gall y personau sydd â diddordeb yn y materion hyn archwilio a gwneud copïau o gyfrifon yr uchod am flwyddyn ariannol 2025/26 ynghyd â holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynion y cyfrifon hynny. Bydd modd gwneud hyn yn Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd, yn ystod y cyfnod 29 Gorffennaf i 25 Awst 2026, dydd Llun i Gwener bob wythnos rhwng 9.00 y.b. a 4.30 y.p. Gyda nifer o staff yn gweithio dan drefniadau gweithio hybrid, os am archwilio'r cyfrifon yna dylid cysylltu un ai drwy e-bost Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio (01766) 771 000 yn y lle cyntaf i drefnu apwyntiad.

   Bydd Datganiad o'r Cyfrifon hefyd ar gael ar ein gwefan https://uchelgaisgogledd.cymru/

2. Archwilydd y cyfrifon yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ.

3. Ar 26 Awst 2026, neu wedi hynny, ar gyfer:

| Cyfrifon | Bydd hawl gan etholwyr |
|---|---|
| Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd | Cynghorau Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Môn a Wrecsam |

   ofyn i'r Archwilydd roi cyfle iddynt neu'u cynrychiolwyr ei holi am y cyfrifon a'r hawl i gyfarfod gydag ef ac i gyflwyno gwrthwynebiadau:

   - ar y sail fod unrhyw eitem yn y cyfrifon yn torri'r gyfraith, bod rhywun wedi hepgor unrhyw swm yn y cyfrif y dylid fod wedi'i gynnwys neu y bu colled neu ddiffyg oherwydd camymddygiad bwriadol ar ran unrhyw berson; neu
   - unrhyw fater y sylwodd yr Archwilydd arno yn ystod yr archwiliad ac y gallai adrodd arno er budd y cyhoedd.

4. Serch hynny, ni ellir gwrthwynebu oni bai fod yr Archwilydd yn y lle cyntaf wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig am hynny ac yn nodi'r rhesymau dros wrthwynebu. Yr un pryd ag yr anfonir rhybudd gwrthwynebu i'r Archwilydd, rhaid anfon copi o'r rhybudd i'r Swyddog Cyllid Statudol i'r cyfeiriad isod.

Dyddiedig: Gorffennaf 2026

Dewi Aeron Morgan
Swyddog Cyllid Statudol
Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd
d/o Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Stryd y Jêl
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 ISH

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee